# Y Trydydd Cynulliad - Cyfarfod Llawn

## Pleidleisiau a Thrafodion (246)

**Dyddiad: Dydd Mawrth 15 Chwefror 2011**
**Amser: 13.30**

### 13.30
### Eitem 1: Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

Gofynnwyd yr 13 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 3 a 8 yn ôl.

………………………

### 14.14
### Eitem 2: Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

………………………

### 14.44
### Eitem 3: Dadl ar sicrhau manteision adfywio o gaffael cyhoeddus

**NDM4664 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r dull arloesol sy'n cael ei weithredu drwy raglen Hysbysu i Ymrwymo i sicrhau manteision adfywio yn sgil buddsoddiad cyhoeddus yn y sector tai;

2. Yn croesawu'r cyfleoedd am swyddi a hyfforddiant sydd wedi'u sicrhau drwy'r rhaglen yn ogystal â'r nifer fwy o gyfleoedd i fentrau bach a chanolig wneud cais am gontractau;

3. Yn nodi bod y dull hwn o weithredu yn ategu gwaith Gwerth Cymru ac yn cymeradwyo ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau manteision cymunedol yn sgil caffael ym mhob sector.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliant o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn gresynu bod y rhaglen Hysbysu i Ymrwymo (i2i) wedi methu â mynd i'r afael â'r problemau y mae'r diwydiant adeiladu yn eu hwynebu wrth dendro am gontractau'r sector cyhoeddus.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 34 | 50 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu, petai mwy yn cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru y byddai hynny'n helpu i sicrhau manteision adfywio o gaffael cyhoeddus, ac felly, yn galw ar y Llywodraeth i adolygu'r broses ar gyfer Trosglwyddo Stoc Tai er mwyn dileu unrhyw rwystrau i'r broses hon.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 35 | 50 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r cyfyngiadau ariannol i fuddsoddiad cyhoeddus yn y sector tai gan gynghorau lleol, ac yn galw ar y Llywodraeth i ymgysylltu â'r Trysorlys i ddiwygio rheolau cyllid tai a'r system cymhorthdal tai.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 35 | 50 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

**NDM4664 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r dull arloesol sy'n cael ei weithredu drwy raglen Hysbysu i Ymrwymo i sicrhau manteision adfywio yn sgil buddsoddiad cyhoeddus yn y sector tai;

2. Yn croesawu'r cyfleoedd am swyddi a hyfforddiant sydd wedi'u sicrhau drwy'r rhaglen yn ogystal â'r nifer fwy o gyfleoedd i fentrau bach a chanolig wneud cais am gontractau;

3. Yn nodi bod y dull hwn o weithredu yn ategu gwaith Gwerth Cymru ac yn cymeradwyo ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau manteision cymunedol yn sgil caffael ym mhob sector.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 35 | 0 | 15 | 50 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

……………………….

## 15.25
## Eitem 4: Dadl ar y Setliad Llywodraeth Leol

**NDM4663 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag Adran 84H o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 1) 2011-2012 (Setliad Terfynol – Cynghorau) a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Chwefror 2011.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**
**Canlyniad y bleidlais:**

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 35 | 5 | 10 | 50 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

………………………

**16.01**
**Eitem 5: Dadl ar Deuluoedd yn Gyntaf**

**NDM4662 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Yn croesawu ffocws Teuluoedd yn Gyntaf ar wella gwasanaethau i’n teuluoedd mwyaf difreintiedig;

2. Yn cefnogi’r gwaith o sefydlu consortia arloesol cychwynnol Teuluoedd yn Gyntaf ac yn edrych ymlaen at weld ehangu’r rhaglen, gyda mwy o gonsortia i gael eu cyhoeddi yn y gwanwyn, cyn i raglen Teuluoedd yn Gyntaf gael ei chyflwyno’n llawn ym mis Ebrill 2012.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a’r gwelliant o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi’r rhan allweddol a chwaraewyd gan y Trydydd Sector wrth ddatblygu Teuluoedd yn Gyntaf ac yn galw am gynnwys y Trydydd Sector yn uniongyrchol wrth gynllunio a chyflenwi Teuluoedd yn Gyntaf.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 35 | 50 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod cyn lleied o wybodaeth wedi’i chyhoeddi am sut beth fydd Teuluoedd yn Gyntaf pan gaiff ei gyflwyno ledled Cymru yn 2012, ac yn

gresynu ymhellach wrth y diffyg amcanion clir neu dargedau pendant er mwyn asesu perfformiad y cynllun Teuluoedd yn Gyntaf.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 35 | 50 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

**NDM4662 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Yn croesawu ffocws Teuluoedd yn Gyntaf ar wella gwasanaethau i'n teuluoedd mwyaf difreintiedig;

2. Yn cefnogi'r gwaith o sefydlu consortia arloesol cychwynnol Teuluoedd yn Gyntaf ac yn edrych ymlaen at weld ehangu'r rhaglen, gyda mwy o gonsortia i gael eu cyhoeddi yn y gwanwyn, cyn i raglen Teuluoedd yn Gyntaf gael ei chyflwyno'n llawn ym mis Ebrill 2012.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 35 | 10 | 5 | 50 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

………………………

**16.36**
**Cyfnod pleidleisio**

Daeth y cyfarfod i ben am 16.39.

………………………

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30 ddydd Mercher 16 Chwefror 2011.**

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**